Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg ar gyfer Athrawon, Darlithwyr a Darparwyr Hyfforddiant

Eich cyfle chi i ddod yn ymarferwr dwyieithog

Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg

Datblygwyd y Cynllun arloesol hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu nifer yr ymarferwyr dwyieithog ledled Cymru.

Mae'n cynnig hyfforddiant iaith-Gymraeg a phedagogaidd i'r bobl hynny sydd eisiau addysgu, darlithio neu hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ond sydd heb yr hyder a'r derminoleg arbenigol i wneud hynny.

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant, gan gynnwys costau cyflenwi, teithio a chynhaliaeth, yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'r Cynllun ar gael i athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, darlithwyr addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gweithle sydd â chontract gyda LICC. Gallant weithio'n rhan amser neu'n llawn amser yng Nghymru. Gellir ystyried staff cyflenwi a darlithwyr addysg uwch hefyd yn dibynnu ar amodau penodol.

Gallu ieithyddol

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella sgiliau ieithyddol siaradwyr iaith gyntaf neu ddysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn weddol rugl. Nid yw'n addas ar gyfer dechreuwyr neu ddysgwyr sydd wedi cyrraedd lefel ganolradd. Caiff y cyrsiau eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu trochi yn yr iaith yn llwyr.

Cyfnod sabothol

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyfnod sabothol o'r gwaith i gwblhau'r cwrs sy'n para tri mis. Caiff yr hyfforddiant ei gynnal ym Mhrifysgol Bangor a Chaerdydd. Mae dau fath o hyfforddiant ar gael, naill ai'r cwrs bloc llawn amser neu'r cwrs dysgu o bell.

Cwrs bloc

Mae'r hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ar gael yn y ddau leoliad. Mae'n gwrs llawn amser, dydd Llun i ddydd Gwener o 9.30am i 4.00pm. Bydd angen i gyfranogwyr gael eu rhyddhau o'u swyddi am y tri mis cyfan.

Eisteddfod Genedlaethol 2008

Daeth John Griffiths, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, sydd hefyd yn ddysgwr brwd, i gyflwyniad ar y Cynllun Sabothol ym Mhabell Prifysgol Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Treuliodd y Dirprwy Weinidog amser yn sgwrsio gyda chyn-gyfranogwyr a oedd yn trafod manteision y cwrs iddynt hwy a'u disgyblion.

John Griffiths, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a thiwtoriaid y cwrs yn yr Eisteddfod

Dysgu o bell

Mae'r cwrs hwn, sy'n para tri mis, ar gael ym mis **Ebrill 2009**. Bydd angen i ymgeiswyr gael sgiliau iaith-Gymraeg llafar o safon uchel am fod llai o gyswllt wyneb-yn-wyneb gyda'r iaith.

Rhaid i gyfranogwyr fynychu tri chwrs preswyl, sy'n dod i gyfanswm o 12 diwrnod, ym Mhrifysgol Bangor. Yn ystod yr wythnosau di-breswyl, caiff tasgau eu cwblhau ar-lein gan ddefnyddio'r System Blackboard. Caiff offer ei ddarparu fel y bo angen.

Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg

Adborth gan Ymarferwyr

Dysgu Cymraeg yn rhoi hwb i Becky yn y dosbarth a'r tu allan iddo

Cymerodd Becky Rigby, athrawes Ffrangeg ac Almaeneg i blant ysgol gynradd yn ardal gogledd Caerdydd, ran yn y cwrs dysgu o bell ym mis Medi 2007.

Dechreuodd Becky ddysgu Cymraeg fel hobi bum mlynedd yn ôl pan ddechreuodd ei phlant fynychu ysgolion dwyieithog. Pan gafodd y cyfle i weithio mewn ysgolion dwyieithog, roedd hi'n awyddus i wella ei sgiliau iaith.

"Roeddwn yn weddol hyderus wrth siarad, ond sylweddolais fod addysgu trwy'r Gymraeg yn heriol iawn," dywedodd Becky.

"Fodd bynnag, ers gwneud y cwrs sabothol, rwyf wedi dod yn llawer mwy hyderus wrth gynllunio gwersi ac nid wyf yn teimlo bod fy sgiliau iaith yn fy rhwystro. Effaith bositif arall yw'r ffaith fy mod yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn ystod fy mywyd dyddiol a gyda'm plant, sy'n falch iawn o'r hyn rwyf wedi'i gyflawni."

Rebecca Rigby a fynychodd y cwrs dysgu o bell ym mis Medi 2007

Rhoi Cymraeg ar y fwydlen yng Ngholeg Llandrillo

Mae Graham Williams, darlithydd yn Adran Lletygarwch ac Arlwyo Coleg Llandrillo, wedi cael dyrchafiad a'i benodi'n 'Hyrwyddwr Dwyieithog' yn ei adran ers cwblhau'r cwrs Sabothol.

"Mae siarad Cymraeg gyda'ch ffrindiau yn y dafarn yn un peth, ond mae sefyll o flaen dosbarth a rhoi gwers yn Gymraeg yn fater arall," dywedodd Graham.

"Roedd y cwrs Sabothol yn grêt oherwydd rydych yn cael eich trochi yn yr iaith felly rydych yn gwella'n gyflym iawn. Mae'n llawer mwy na chwrs iaith. Mae'n rhoi sylfaen gadarn i chi ar fethodoleg addysgu, sut i gynllunio'ch gwersi ar gyfer myfyrwyr sydd â lefelau rhuglder gwahanol a ble i ddod o hyd i'r derminoleg dechnegol sydd ei hangen ar gyfer eich pwnc."

Graham Williams a gymerodd ran yn y cwrs bloc 3-mis ym Mangor ym mis Medi 2006

Rownd recriwtio

Rydym yn recriwtio nawr ar gyfer cyrsiau yn 2008/09:

05 Ionawr - 03 Ebrill 2009
(Dyddiad cau: 10/10/08)

20 Ebrill - 17 Gorffennaf 2009
(Dyddiad cau: 06/02/09)

Proses gais

I wneud ymholiadau neu ofyn am becyn cais, cysylltwch â:

Ffôn: 01443 663770

cynllunsabothol@cymru.gsi.gov.uk
neu ymwelwch â
www.cymru.gov.uk/cynllunsabothol

D2640809
CMK-22-07-319